SUL CYFIAWNDER HILIOL 2022




# CYFIAWNDER HILIOL:

## BE SY A WNELO HYNNY Â FI?

Cyhoeddwyd gan Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon
Interchurch House
35 Lower Marsh
Llundain
SE1 7RL
+44 (0) 20 3794 2288 (ffôn)
info@ctbi.org.uk
www.ctbi.org.uk
Elusen gofrestredig rhif. 1113299 (Cymru a Lloegr)
Rhif Cwmni Cyfyngedig. 5661787
© CTBI 2022

Lluniau clawr: bojanstory/funky-data/istock
Cynlluniwyd gan 25 educational www.base25.com

Testun Cymraeg: Aled Davies, Delyth Wyn a Denzil I John
Dylunio: Aled Davies

S U L   C Y F I A W N D E R   H I L I O L   2 0 2 2

# CYFIAWNDER HILIOL:
# BE SY A WNELO HYNNY Â FI?

**Detholiad Cymraeg o adnoddau wedi eu dethol o'r pecyn Saesneg a baratowyd ar gyfer Sul Cyfiawnder Hiliol 2022.**

**Ceir mwy o adnoddau yn y pecyn hwnnw.**


JohnnyGreig/istock

# CYFLWYNIAD



**"Rhaid i chi stopio dweud celwydd wrth eich gilydd, am eich bod wedi rhoi heibio'r hen fywyd a'i ffyrdd ac wedi gwisgo'r bywyd newydd. Dyma'r ddynoliaeth newydd sy'n cael ei newid i fod yr un fath â'r Crëwr ei hun, ac sy'n dod i nabod Duw yn llawn. Lle mae hyn yn digwydd does dim gwahaniaeth rhwng Iddew a rhywun o genedl arall, neu rhwng cael eich enwaedu neu ddim; does neb yn cael ei ddiystyru am ei fod yn farbariad di-addysg neu'n anwariad gwyllt; does dim gwahaniaeth rhwng y caethwas a'r dinesydd rhydd. Yr unig beth sy'n cyfri ydy'r Meseia, ac mae e ym mhob un ohonon ni sy'n credu."**

**Colosiaid 3: 9-11**

# Croeso

**Dyma gyflwyno deunydd addoli ar gyfer Sul Cyfiawnder Hiliol (RJS) ar gyfer eleni, sy'n dilyn y thema: 'Sul Cyfiawnder Hiliol: Beth sydd a wnelo hynny â fi?' Mae yma alwad clir ar bob Cristion i ymddiddori yn y frwydr dros gyfiawnder hiliol, gan fod cyfiawnder hiliol yn fusnes i bawb ohonom. Cawn ddarganfod yn yr adnodd hwn fod gan y Beibl lawer i'w ddweud am gyfiawnder, oherwydd mai Gair 'Duw' ydyw, ac o'r herwydd mae'n adlewyrchu calon Duw dros gyfiawnder. Gellir dadlau y dylem ninnau felly garu cyfiawnder oherwydd mai dyna mai Duw yn ei wneud! Mae hiliaeth a gwahaniaethu ar sail hil yn faterion cyfiawnder, oherwydd eu bod yn gwadu cyfiawnder sylfaenol ac urddas dynol i fenywod a dynion, a grëwyd ar lun a delw Duw.**

**Mae llofruddiaeth George Floyd ym mis Mai 2020 wedi cael ei ddisgrifio fel moment allweddol yn ymwneud yr Eglwys gyda materion cyfiawnder hiliol, ac arweiniodd y digwyddiad hwn at lawer o drafod dwys, ac awydd ar ran llawer i weld newidiadau sylfaenol. Ond nid pawb a gydiodd yn yr her, a dewisodd rhai eglwysi anwybyddu'r anghyfiawnder hwn. Mae'r adnodd hwn wedi'i ysgrifennu gyda'r garfan honno'n benodol mewn golwg, oherwydd bod y gwaith i ddod â hiliaeth i ben yn gofyn am ymdrech ac ymateb gan bawb o fewn yr eglwys.**

**I'r rhai nad ydynt wedi ymgysylltu gyda Sul Cyfiawnder Hiliol o'r blaen, oherwydd efallai nad oeddent yn teimlo'n barod i wneud hynny, bydd yr adnodd hwn yn rhoi'r cyfle iddynt chwarae rôl weithredol yn y gwaith hwn. I'r rhai sydd wedi dadlau fod eu heglwysi yn cael eu heithrio am nad oes ganddynt bobl Ddu, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig yn eu cynulleidfaoedd, ac felly nad oes angen rhoi sylw i'r mater, mae'r adnodd hwn yn awgrymu bod gan eglwysi yn yr ardaloedd hyn ran bwysig i'w chwarae wrth annog cymunedau i fod yn fwy derbyniol a chroesawgar o bobl Ddu, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig. O'r herwydd, mae'r deunydd hwn yn arfogi Eglwysi gyda'r adnoddau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r sefyllfaoedd hyn. Mae'r gwaith i roi terfyn ar hiliaeth yn gofyn am ymateb ar y cyd gan bawb sy'n rhan o'r Eglwys.**

## Ar gyfer pwy mae'r adnodd hwn?

**Fel y mae'r rhagymadrodd yn ei nodi, mae cyfiawnder hiliol yn fusnes i BAWB.
Ni ddylid ei ystyried yn fater 'beichus a chymhleth i'w osgoi', ond yn gyfle i eglwysi ganolbwyntio ar y tair prif egwyddor sef 'Cofio', 'Myfyrio' a 'Ymateb':**

- **COFIO pwysigrwydd cyfiawnder hiliol**

- **MYFYRIO ar amrywiaeth dynol a diolch i Dduw amdano**

- **YMATEB drwy weithio i roi terfyn ar anghyfiawnder, hiliaeth ac anwybodaeth - a hynny trwy barodrwydd i weithredu, ac mewn ysbryd o weddi.**

## Sut y gellir defnyddio'r adnodd hwn

**Rhennir yr adnodd hwn yn ddwy adran; mae'r cyntaf yn cynnwys ystod eang o ddeunyddiau a fydd yn galluogi eglwysi a chynulleidfaoedd i gynnal oedfa o addoliad neu wasanaeth yn canolbwyntio ar gyfiawnder hiliol. Mae'r adnodd hwn wedi'i greu i'w defnyddio gan Gristnogion o bob traddodiad ac eglwysi o bob enwad, fel sy'n gweddu i natur eciwmenaidd Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon.**

**O ganlyniad, cyflwynir llawer iawn o'r adran gyntaf mewn dull dewis a dethol, sy'n caniatáu i arweinwyr addoliad ddewis yr emynau, gweddïau, pregethau a gweithgareddau yn y modd mwyaf priodol.**

**Mae'r ail adran yn darparu eglwysi, cynulleidfaoedd, ac unigolion gyda gwybodaeth, syniadau a gweithgareddau sy'n eu galluogi i barhau â'r sgyrsiau a all ddeillio o gynnal Sul Cyfiawnder Hiliol. Gall defnyddwyr hefyd ei chael yn fuddiol i ddarllen yr adran hon cyn mynd ati i baratoi'r addoliad, oherwydd gallai hyn eu galluogi i greu gwasanaeth cyfoethocach, mwy creadigol, a chraff.**

**Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth amhrisiadwy sy'n archwilio cyfiawnder hiliol o safbwynt Beiblaidd yn ogystal â phersbectif cymdeithasol. Mae hefyd yn cynnwys storïau gan bobl o Iwerddon, yr Alban, Cymru a Lloegr; y mae pob un ohonynt yn sôn am bwysigrwydd cyfiawnder hiliol oddi fewn i'w cyd-destun.**

**Richard Reddie**
***Cyfarwyddwr Cyfiawnder a Chynhwysiant,***
***Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon***

**Noder hefyd mai detholiad o adnoddau a geir yma - mae mwy o bregethau, gwybodaeth a storïau ar gael o fewn y pecyn Saesneg llawn sydd ar wefan CTBI.**

**Stopiwch wneud drwg;**
**dysgwch wneud da.**
**Brwydrwch dros gyfiawnder,**
**o blaid y rhai sy'n cael eu gorthrymu.**
**Cefnogwch hawliau plant amddifad,**
**a dadlau dros achos y weddw.**

**Eseia 1: 17**





JohnnyGreig/istock



# DEUNYDD ADDOLI

# Gweddïau

## GWEDDI DROS GYFIAWNDER

Duw pob grym a Duw tragwyddoldeb,
deuwn fel dy bobl i'th bresenoldeb,
yn ddiolchgar am dy raslonrwydd, dy drugaredd a'th gariad.
Parhawn i gofio am y sawl sy'n dioddef oherwydd pandemig Covid,
a gweddïwn y bydd yr Ysbryd Glân yn gwmni iddynt,
i'w cysuro a'u hiachau, i'w cynnal a'u cymodi gyda'i gilydd.

Ar y dydd arbennig hwn, cofiwn am deulu George Floyd,
a phob teulu arall a effeithiwyd gan anghyfiawnder hiliol,
gan feddwl am y sawl sy'n dioddef poen, y sawl sydd o dan anfantais
a phawb sy'n dioddef rhagfarn hiliol.
Eiriolwn drostynt. Boed iddynt brofi cysur a iachâd,
i ddwyn cyfiawnder a chymod, y naill gyda'r llall.

Dduw pob ffyddlondeb, cyflwynwn yr oedfa hon i'th arweiniad a'th ofal,
gan weddïo dros pob cyfrannwr a gwrandawr.
Bydded iddynt gael eu hatgyfnerthu gan dy rym,
ac  yn ddigon dewr i ddweud ac i wneud yr hyn sy'n gywir a chyfiawn.
Gweddïwn y bydd dy ddaioni a'th ogoniant,
ynghyd a'th gyfiawnder yn cael ei ogoneddu.
Clyw ein gweddi yn enw dy fab Iesu Grist, ein Harglwydd.  Amen ac Amen.

© Gweddi gan Mark Sturge
Addasiad Cymraeg gan Denzil John

# Syniadau am weddio

**Gellir defnyddio rhain mewn ffyrdd amrywiol oddi fewn i litwrgi neu fel gweddiau unigol. Unwaith y byddwn yn dechrau amgyffred tarddiad y deunydd hwn, gallwn lunio ffurf ein gweddïau yn ein haddoliad.**

"Holl bresennol Dduw,
gelwaist ni i fod mewn perthynas gyda'n gilydd
ac addewaist fod gyda ni, ble bynnag bydd dau neu dri wedi ymgynull.
Yn ein cymuned, byddwn yn gymysgedd o bobl;
deuwn o lefydd amrywiol,
yn meddu ar wahanol ddiwylliannau.
Agor ein calonnau, fel y byddom yn hy'
i ddarganfod holl gyfoeth bod yn gynhwysosl
a thrysorau yr amrywiaeth sydd yn ein plith.
Gweddiwn mewn ffydd. Amen".
*Parchg Dr Martin Luther King Jr.*

## Gweddi o eiriolaeth

Dduw ein gwneuthurwr,
crëwyd pob yr un ohonom yn dy wedd a'th debygrwydd,
gydag urddas dynol sy'n deilwng o barch.
Gwrando ar y gri sy'n ymddangos ym mhob cornel o'r byd bregus hwn,
oddi wrth y teulu dynol.

Dyro ddoethineb i arweinwyr y byd,
a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau,
i ymestyn tu hwnt i'n ffiniau a'n borderi.
Boed i'r wedd ddynol sy'n gyffredin rhyngom hyrwyddo polisi
a meithrin trafodaethau heddychlon a chydweithredu adeiladol.

I'r sawl sy'n camddefnyddio grym neu ddwyn grym oddi ar eraill,
drwy drais neu eiriau cas,
dyro drugaredd a meithrin ynddynt galon cydymdeimlad,
trafodaeth heddychlon a chydweithredu adeiladol.

I'r diniwed sydd wedi colli urddas, eiddo neu gysgod,
i'r dioddefwyr o'r grymoedd hyn sydd wedi gweld bywyd yn cael ei gipio oddi wrthynt,
ymddiriedwn hwy i'r ofal tyner, O Dduw,
sydd a'th galon sy'n ddigon llydan
i gofleidio'r cyfan o'th greadigaeth. Amen

## Cyffes

Dduw trugarog, gwnaethost ni yn dy ddelw dy hun,
gyda chalonnau i'th garu ac ewyllys i'th wasanaethu.
Er hyn, mae ein gwybodaeth yn amherffaith,
a'n cariad yn anghyson ac anaeddfed,
a'n hufudd-dod yn anghyflawn ac yn gwasanaethu'r hunan.
Helpa ni, ddydd wrth ddydd, i dyfu i fod yn debyg i ti,
sydd yn cael ei arddangos mor fendigedig yn helaethrwydd dy greadigaeth.
Helpa ni i ddeall ein rhagfarnau a'n meddyliau cyfyng.
Helpa ni i garu ein cymydog fel yr ydym yn dyheu cael ein caru ein hunain.
Helpa ni i wasanaethu eraill gyda gwyleidd-dra a diolchgarwch.
Paid a dal ein pechod yn ein herbyn.
ond ein helpu i edifarhau am ddal gafael ar syniadau
hen ffasiwn ac anaddas o'r byd
Helpa ni i feithrin agweddau  meddwl iach, agweddau cariadlon
a dulliau gwasanaethu aeddfetach.  Amen.

## Moliant

Dduw y cyfan sydd,
Ti yn unig sy'n deilwng o foliant,
o bob ceg, ym mhob cenedl a chyfnod.
Creaist y byd drwy dy ras anfeidrol,
a thrwy dy gariad tragwyddol, wedi achub y byd.
Dal ni at y tasg o garu ein gilydd, fel y ceraist ni.  Amen.

## Gweddi ymgasglu

Deuwn o fywydau gwasgaredig, yn ceisio undod yn yr Ysbryd,
ac yn chwilio am ras Crist yr holl bobloedd,
a cheisio heddwch Duw y cyfan sydd.
Ymgasglodd pobl Dduw
yn ein hamrywiadau bendigedig a gwahanol,
fel y crewyd a bwriadwyd ni gan Dduw.
Gadewch i ni addoli Duw gyda'n gilydd.

## Galwad i Addoli

Duw ein gwneuthurwr
gelwaist ni ynghyd i'th addoli gyda'n gilydd,
i ddwyn tystiolaeth i'th greadigrwydd sydd i'w gweld,
ei glywed a'i darganfod ynom oll.
Ni yw dy blant, yn arddangos dy ddelw di,
Ac a ffurfiwyd drwy dy ddychymyg a'th anadl Di.  Amen.

# Adnodau o'r Beibl

**Dyma rai adnodau y gellir eu defnyddio: [o beibl.net]**

### Hosea 12: 6
Rhaid i ti droi'n ôl at Dduw! –
byw bywyd o gariad a chyfiawnder,
a disgwyl yn ffyddiog am dy Dduw.

### Rhufeiniaid 12: 21
Paid gadael i ddrygioni dy ddal yn ei grafangau –
trecha di ddrygioni drwy wneud daioni.

### Diarhebion 2: 22
Bydd pobl ddrwg yn cael eu gyrru i ffwrdd,
a'r rhai sy'n twyllo yn cael eu rhwygo o'r tir.

### Actau 10: 34-35
Felly dyma Pedr yn dechrau eu hannerch: "Dw i'n deall yn iawn, bellach, y dywediad hwnnw fod Duw ddim yn dangos ffafriaeth! Mae'n derbyn pobl o bob gwlad sy'n ei addoli ac yn gwneud beth sy'n iawn.

### Colosiaid 3: 9-11
Rhaid i chi stopio dweud celwydd wrth eich gilydd, am eich bod wedi rhoi heibio'r hen fywyd a'i ffyrdd ac wedi gwisgo'r bywyd newydd. Dyma'r ddynoliaeth newydd sy'n cael ei newid i fod yr un fath â'r Crëwr ei hun, ac sy'n dod i nabod Duw yn llawn. Lle mae hyn yn digwydd does dim gwahaniaeth rhwng Iddew a rhywun o genedl arall, neu rhwng cael eich enwaedu neu ddim; does neb yn cael ei ddiystyru am ei fod yn ‵farbariad di-addysg‵ neu'n ‵anwariad gwyllt‵; does dim gwahaniaeth rhwng y caethwas a'r dinesydd rhydd. Yr unig beth sy'n cyfri ydy'r Meseia, ac mae e ym mhob un ohonon ni sy'n credu.

### Diarhebion 31: 8-9
Siarad ar ran y bobl hynny sydd heb lais,
ac amddiffyn y rhai sydd wedi colli popeth.
Coda dy lais o'u plaid nhw, barna'n gyfiawn,
a dadlau dros hawliau'r rhai mewn angen a'r tlawd.

## Actau 2: 1-12

Ar ddiwrnod dathlu Gŵyl y Pentecost roedd pawb gyda'i gilydd eto. Ac yn sydyn dyma nhw'n clywed sŵn o'r awyr, fel gwynt cryf yn chwythu drwy'r ystafell lle roedden nhw'n cyfarfod. Ac wedyn roedd fel petai rhywbeth tebyg i fflamau tân yn dod i lawr ac yn gorffwys ar ben pob un ohonyn nhw. Dyma pawb oedd yno yn cael eu llenwi â'r Ysbryd Glân ac yn dechrau siarad mewn ieithoedd eraill. Yr Ysbryd oedd yn eu galluogi nhw i wneud hynny.
Bryd hynny roedd Iddewon crefyddol o wahanol wledydd wedi dod i aros yn Jerwsalem. Clywon nhw'r sŵn hefyd, ac roedd tyrfa fawr wedi casglu at ei gilydd i weld beth oedd yn digwydd. Roedden nhw wedi drysu, am fod pob un ohonyn nhw yn clywed ei iaith ei hun yn cael ei siarad. Roedd y peth yn syfrdanol! "Onid o Galilea mae'r bobl yma'n dod?" medden nhw. "Sut maen nhw'n gallu siarad ein hieithoedd ni?" (Roedd Parthiaid yno, a Mediaid, Elamitiaid, pobl o Mesopotamia, Jwdea a Capadocia, Pontus ac Asia, Phrygia, Pamffilia, yr Aifft, a'r rhan o Libia sydd wrth ymyl Cyrene; pobl oedd ar ymweliad o Rufain – rhai yn Iddewon ac eraill yn bobl oedd wedi troi at y grefydd Iddewig – a hefyd Cretiaid ac Arabiaid) "Maen nhw'n siarad ein hieithoedd ni, ac yn dweud am y pethau rhyfeddol mae Duw wedi'u gwneud!" Dyna lle roedden nhw'n sefyll yn syn, heb ddim clem beth oedd yn digwydd. "Beth sy'n mynd ymlaen?" medden nhw.

## Micha 6: 8

Na, mae'r ARGLWYDD wedi dweud beth sy'n dda,
a beth mae e eisiau gen ti:
Hybu cyfiawnder, bod yn hael bob amser,
a byw'n wylaidd ac ufudd i dy Dduw.

## Amos 5: 24

Beth dw i eisiau ydy gweld cyfiawnder fel dŵr yn gorlifo,
a thegwch fel ffrwd nant sydd byth yn sychu.

## Eseia 1: 17

Stopiwch wneud drwg;
dysgwch wneud da.
Brwydrwch dros gyfiawnder,
o blaid y rhai sy'n cael eu gorthrymu.
Cefnogwch hawliau plant amddifad,
a dadlau dros achos y weddw.

## Hosea 12: 6

Rhaid i ti droi'n ôl at Dduw! –
byw bywyd o gariad a chyfiawnder,
a disgwyl yn ffyddiog am dy Dduw.

## Salm 82: 3

"Dylech roi dedfryd o blaid y gwan a'r amddifad!
Sefyll dros hawliau y rhai anghenus sy'n cael eu gorthrymu!

# EMYNAU A CHANEUON CRISTNOGOL

## RHAI AWGRYMIADAU O EMYNAU DWY-IEITHOG

**Bydd yn weledIad fy nghalon a'm byw - ar gael o wefan www.gobaith.cymru**
*Be Thou my vision*

**Duw wyt i'r Tlawd (Harddwch am Friwiau Lu) - ar gael o wefan www.gobaith.cymru**
*Beauty for brokenness*

**Frawd neu chwaer, fe'th wasanaethaf - ar gael o wefan www.gobaith.cymru**
*Brother, Sister let me serve you*

**Duw faddeuodd im (Rhoddais yn rhad) - Caneuon Ffydd 424**
*God forgave my sin*

**Mae Iesu Grist yn aros - Caneuon Ffydd 870**
*Jesus Christ is waiting, waiting in the streets*

**Arglwydd pob gobaith ac Arglwydd pob hoen - Caneuon Ffydd 394**
*Lord of all hopefulness*

## AWGRYMIADAU YCHWANEGOL YN GYMRAEG YN UNIG

**Dragwyddol, hollalluog Iôr - Caneuon Ffydd 809**

**Ein gwlad a'n pobl gofiwn nawr - Caneuon Ffydd 814**



Ringo Chiu/shutterstock

# Pregeth

(Lluniwyd gan Shermara J Fletcher, prif swyddog pontio ar ran mudiadau Pentecostalaidd, Carismatig a chyrff aml ddiwylliannol.

### CROESI PONT CYFIAWNDER SY'N ein harwain i DIR HEDDWCH

Datguddiodd pandemig cyfnod Covid-19 fannau gwan o bolareiddio, ymraniadau ac anghydfod cymdeithasol byd-eang. Gwelwyd enghreifftiau lle roedd anghyfartaledd yn amgylchiadau pobl o ran iechyd, hil a dosbarth cymdeithasol. Bu hanes am drais hiliol gyda chyllyll, ac ymosodiadau ar wragedd Mwslemaidd yn Ffrainc a'r Amerig. Cofiwn am ladd di-synnwyr George Floyd a Breonna Taylor, a sbardunodd ymateb eithafol ledled byd. Cododd hiliaeth i'r amlwg ym Mhrydain gan bolareiddio safbwyntiau gwleidyddol. Clÿwyd cyfiawnder yn griddfan mewn protest ar hyd strydoedd y pum cyfandir, fel pe bai calon y meddylfryd dyngarol wedi tagu a bu galwad daer am heddwch. Sut bynnag, ni ellir ateb y gri am heddwch, cydraddoldeb na thegwch, heb groesi pont cyfiawnder. Mae'r bregeth hon yn sôn am ddwy bont sydd angen eu croesi er mwyn i'r Eglwys gyrraedd y nôd. Mae'r naill yn bont rhagfarn bersonol a'r llall yn bont ofn a distawrwydd.

### CROESI PONT RHAGFARN BERSONOL

Mae staen a phechod hiliaeth, agwedd wahaniaethol a rhagfarn fyw i'w gweld yn agweddau a chalonnau Cristnogion, a gwir dweud bod yr agweddau hyn yn amlwg yn y ganrif bresennol. Nid yw yn ffenomena newydd, a bodolai yn nyddiau Iesu. Roedd y nodwedd hon i'w gweld o fewn cymuned y disgyblion, ac yn arbennig Pedr. Roedd Pedr yn arweinydd yn yr Eglwys Fore, ac wedi treulio amser yng nghwmni Iesu. Roedd wedi cerdded ar ddŵr a maddeuwyd iddo gan Iesu am wadu'r Arglwydd. Eto, roedd ganddo agwedd hiliol gul tuag at y cenedl-ddynion (Galatiaid 2:12) Gallwn ddysgu llawer am agwedd Duw tuag at hiliaeth, a rhagfarn gwahaniaethu yn hanes Pedr. Nid oedd gan Dduw ddiddordeb yn rhagoriaethau Pedr a llwyddiannau'r eglwys ac yn Actau 10: 15 a 28, dywed Duw wrth Pedr na ddylai alw unrhywun yn gyffredin ac aflan. Mae hyn yn dangos bod yr Efengyl yn fydeang ac yn gynhwysol ei gwedd, a bod pob math o antagonistiaeth yn wrthun iddi. Nodir bod croeso i bawb ddod i gymundeb â Duw. Mae'r cyfeiriad hwn yn Actau 10, yn dangos bod modd i'r Eglwys fod yn rhagfarnllyd ac nad yw hyn yn dderbyniol tu ôl i fwgwd diwinyddol. Bydd y modd y derbyniodd Pedr ei gywiro yn help i bawb a fu, neu sy'n rhagfarnllyd, brofi newid meddwl a bod Duw yn trugarhau tuag atynt.

Mae cyfiawnder yn griddfan mewn protest ar hyd strydoedd y pum cyfandir, fel pe bai calon y meddylfryd dyngarol wedi tagu.


### HON YW'R AIL BONT I'W CHROESI, SEF PONT OFN A BOD YN DAWEL

Yn wyneb anghyfiawnder a hiliaeth, a oes gennym yr hyder a'r ymroddiad i ymwrthod a bod yn ddiwedws dawel, er mwyn cynnal y statws quo. Beirniadodd Iesu arweinwyr

crefyddol ei ddydd am fod yn ddiwedws dawel ac yn Math 23:23 dywed “Gwae chwi y Phariseaid rhagrithiol”. Nodir bod mwy o ddiddordeb gan y Phariseaid bod taliadau degwm mintys, anis a chwmin yn bwysicach na hyrwyddo’r gyfraith, cyfiawnder a thrugaredd. Yn ddiddorol, ni wnaeth Iesu feirniadu’r gwleidyddion, y gwarchodwyr a’r casglwyr trethi, ond yr arweinwyr crefyddol. Mae condemniad Iesu yn herio’r Eglwys a’i harweinyddion i gymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif, i hyrwyddo amgylchedd gynhwysol lle gallai pawb lwyddo, a herio anghyfiawnder yn y byd a’r eglwys.

Cwyd hyn y cwestiwn canolog, ble mae’n ffocws ni? A ydym yn aros gyda’r chwe pwynt euraidd o strategau cynnydd, sut gallwn gynnal y diwylliannau eglwysig a’i hincwm, gan anghofio’r pynciau trymach. Pynciau fel deddfau anghyfiawn sy’n llorio bywydau pobl a’r anghyfiawnderau sy’n effeithio ar y bobl a ddaw i eistedd ar ein seddau? Mae’r wedd o sefyll a delio gyda’r cwestiynau trymach hyn, o ddeddfwriaeth: cyfiawnder, trugaredd a ffyddlondeb a welwyd yn y neges am y frenhines Esther a’i datganiad ‘Os byddaf farw, byddaf farw” (Esther 4:16). Roedd penderfyniad Esther i wrthsefyll y demtasiwn i aros yn dawel, wedi arbed cenedlaethau o hil-laddiad a’r pureiddio ethnig sy’n cael ei ysgogi gan hiliaeth (Esther 3:8) Ymadawodd hithau a’i breintiau, manteision cymdeithasol a’i hawdurdod i helpu cenhedloedd. Yn wir, gall y penderfyniad hwn annog y sawl sy’n gweithio o blaid cyfiawnder hiliol neu â chyfrifoldebau dros amrywiaeth hiliol yn eu sefydliadau i wneud cam hyderus a dewr.

Yn olaf, bydd yn rhaid i ni ymdrechu gyda’n cyfrifoldebau i wynebu anghyfiawnder hiliol yn yr eglwys a’r gymdeithas ehangach, tra’n byw gyda thensiwn y ‘ bod yn barod, ond ddim eto chwaith’. Wrth orffen, gadawaf gwestiwn gyda chi i’w ystyried.Pan fyddwch yn delio gyda a dadwreiddio agweddau hiliol, gwahaniaethu cymdeithasol a rhagfarn ynoch chi eich hun, neu/a gyda’r sefydliad rydych yn aelod ohono, beth fydd nerth eich llais i achub, neu beth mae eich tawedogrwydd yn medru ei gadw.



**Stephen Lawrence, a laddwyd yn Llundain ar Ebrill 23ain 1993.**

# Pregeth

## RYDYM OLL YN UN YNG NGHRIST,

## NEU A YDYM?

## (Effesiaid 2: 19-22)

(Lluniawyd gan y Parchg Mandy Ralph, - gweinidog gyda Eglwys yr Alban)

Mewn bywyd, os ydym yn onest gyda'n hunain, byddwn yn gwybod yn ddigon da, bod yna bobl sydd oddi fewn i gylch y gymdeithas ac eraill sydd oddi allan. Bydd rhai yn cael eu derbyn, ac eraill yn cael eu gwrthod. Os ydych yn gyfarwydd gyda chael eich derbyn a'ch cynnwys, byddwch yn teimlo'n ddiogel a chynnes. Ar y llaw arall, efallai eich bod yn gyfarwydd â'r teimlad o gael eich gwrthod a'ch eithrio, ac nid yw'n brofiad hyfryd, gan greu ymdeimlad o rwystredigaeth a thor-calon, dadruthiad a phoen. Yn rhai o'r pentrefi gwledig lle bûm yn weinidog, bydd rhai yno yn ddieithriaid, er efallai iddynt fyw yn y gymuned am 30-40 mlynedd, byddant yn synhwyro eu bod yn bobl ddieithr, ac yn cael eu galw'n fewnfudwyr. 'Aye see these interlopers'!'

Sut deimlad yw e', pan fyddwch yn cael eich eithrio, oddi allan i'r cylch lleol oherwydd lliw eich croen, neu am eich bod yn wahanol? Darllenwn yn Effesiaid ein bod 'oll yng Nghrist'. Ai cysyniad diddorol neu realiti? Efallai nad yw'r pwnc yn berthnasol yn eich cymuned eglwysig? Wrth i chi fyfyrio ar yr adran hon o Effesiaid, sut bydd gair Duw yn siarad gyda chi, efallai eich bod yn gofyn beth yw ei berthnasedd ar Sul Cyfiawnder Hiliol? Byddwch hefyd yn meddwl beth sydd gan Sul Cyfiawnder Hiliol i'w wneud gyda ni fel unigolion? Yr ateb yw -popeth. Y mae'n ymwneud â chael ein derbyn gan Dduw a ninnau'n derbyn ein gilydd.

Weithiau byddwn yn defnyddio'r cymal 'Rydym oll yn un yng Nghrist", beth fyddwn yn ei wneud yw dod a'r drafodaeth i ben, a gwrthod sgwrsio am anghyfartaledd yn y byd ac anghyfiawnder hiliol. O fewn cymunedau Cristnogol, byddwch yn gyson yn clywed y cymal: 'Rydym oll yn un yng Nghrist'. Drwy ffydd, yr ydym yn hyderus gyda hyn, a deall ein bod yn rhan o Gorff Crist. Cerddodd Iesu yn ein mysg, yn ein hadnabod yn dda, ac yn deall ein cymhlethdodau a'n gwendidau. Felly peidiwn â thwyllo'n hunain y gallwn defnyddio'r cymal i'n dibenion personol, wrth i ni guddio'n brychau ein hunain neu geisio profi ein bod yn gywir yn ein dadleuon, wrth eu defnyddio. Weithiau, byddwn yn dod a'r drafodaeth i ben wrth ei ddefnyddio, yn arbennig pan fyddwn yn trafod anghyfartaledd ac anghyfiawnder hiliol. Y dagrau yw y bydd y sawl sy'n wrthrych y drafodaeth yn dal i gael eu heithrio, ac nad yw eu llais wedi cael ei glywed, ac mewn gwirionedd mae eu lleisiau wedi eu distewi'n llwyr.

Cerddodd a rhannodd Iesu drwy esiampl, ac rydym yn cael ein cyfarwyddo i wneud yr un fath, gan ddilyn yn ôl ei droed, i fynd mewn ffydd yn yr hyn sydd yn ein huno ynghyd, ac nid yn ein rhannu.  Felly, wrth i ni ddweud ‘Beth sydd gan Sul Cyfiawnder Hiliol i’w wneud gyda mi?’ – Popeth!  Mae lan i ni, fel cymunedau Cristnogol i osod esiampl dda, i wneud yr hyn a bregethwn, gan roi ein ffydd yn ein gweithredodedd wrth frwydro anghyfiawnder hiliol, ac y mae Duw yn disgwyl hyn oddiwrth bob un ohonom, nid yr ychydig dethol yn unig. Rydym oll wedi ein creu yn nelw Duw, ac eto mae pob un ohonom yn unigryw.

Yn yr Alban, mae gennym ddywediad hyfryd – ‘Wur aw Jock Tamson’s Bairns’. Mewn ffydd ‘Wur au God’s bairns’ – plant Duw. Bydd pawb wedi eu caru yr un fath gan Dduw. Felly beth am drin ein gilydd yn gyfartal ac yn barchus,gan ddeall ein bod fel Cristnogion â rhan i’w chwarae, beth bynnag lliw ein croen wrth herio anghyfiawnder hiliol, a hynny oddi fewn i’n cynulleidfaoedd a’n cymunedau.



Ranta Images/istock

# PAM FOD YN RHAID I BAWB YMLADD YN ERBYN ANGHYFIAWNDER HILIOL

**Dr Frankie Asare-Donkoh, Ymgynghorydd: Gwleidyddiaeth a Llywodraeth/Cyfryngau a Chysylltiadau/Arweinyddiaeth a Rheolaeth Strategaeth, Caerdydd, Cymru.**

Mae Anghyfiawnder Hiliol yn bwnc na fydd llawer am ei drafod ym Mhrydain. Mae'r prif reswm yn syml, gan fod llawer ddim yn credu fod anghyfiawnder hiliol yn bodoli ym Mhrydain. Dyma ymwadiad a fu'n bodoli am flynyddoedd, a fu'n gadael llawer o bobl o gefndiroedd Du, Asaidd, a'r Lleiafrifoedd Ethnig (BAME)  yn cael eu trin fel pobl eilradd parhaol.  Mae hiliaeth yn bodoli ymhobman, o'r ysgolion i'r mannau gwaith, yn y system gyfreithiol, oddi fewn i'r heddlu, mewn academia a chwaraeon, bydd diraddio yn erbyn y bobl Dduon a'r bobl lleiafrifol yn hynod gyffredin.

Erbyn 2017, cododd canran yr ieuenctid o BAME mewn carchardai o 25% yn 2006 i 41% (Arolwg Lammy 2017).  Bydd data o'r Swyddfa Gartref yn awgrymu bod 4 'stop and search' o bobl wynion rhwng Ebrill 2018 i Fawrth 2019 o bob mil o bobl wynion, tra bod 38 o bobl dduon.  (Tystiolaeth y Swyddfa gartref 2020)

Ym maes addysg, sy'n fwy cyfarwydd i mi, bydd ystadegau yn 2018 yn awgrymu bod 14,000 Athrawon (Profs) Gwyn mewn prifysgolion a cholegau yn y DU  pan fod ond 90 o Athrawon croenddu.   (Advance HE, 2018).  Erbyn 2020 nid oedd y sefyllfa wedi gwella o gwbl ac o'r 21,000 a Athrawon roedd hyd at 85% (17,850) yn wynion, 6,47% (1,360) yn Asaidd, ac ond 0.67 (140) yn Dduon.  Bydd prifysgolion Prydain ond yn cyflogi rhwng 0- 2 Athro Du bob blwyddyn, ac ar yr ochr weinyddol, 75 allan o 3,600 o blith byrddau llywodraethol y prifysgolion sy'n groenddu. (HESA 2020)

Mewn perthynas â llwyddiannau y myfyrwyr, gadawodd 11.2% o fyfyrwyr Du addysg uwch heb gymhwyster o'i gymharu â 6.9% o bobl wynion.  Yn 2019/20, roedd yna wahaniaeth canrannol o 18.3% rhwng y nifer o fyfyrwyr croenwyn  a chroenddu a gafodd raddau dosbarth 1 a 2.  Ceir hefyd canran negyddol rhwng disgyblion croenwyn a chroenddu yn mynychu addysg bellach ac ond 26% o'r holl fyfyrwyr is-raddedig sydd o gefndir BAME yn Lloegr (Alexander & Shankley, 2020), ac yn waeth fyth mae ystadegyn is, yn debygol o fod yn y 24 o golegau y Prifysgolion Russell Group, sy'n cael eu galw'n brifysgol arbennig byd-eang, a'r prifysgolion ymchwil arbennig. Mae gormod o rwystrau yn wynebu pobl BAME i fanteisio ar y gwasanaethau gofal meddygol a meddyliol arwahan i'r adnoddau cymdeithasol y gallent fod eu hangen, ac mae hyn yn cael dylanwad negyddol ar eu bywydau.

Mae lefel yr amrywiadau gwahaniaethol ac anghyfiawn yn y gymdeithas Brydeinig mor amlwg fel nad oes gwahaniaeth ym mywydau pobl BAME yng Nghymru.  Mewn un prifysgol Cymreig, bydd ystadegau o'i data ei hun yn dweud bod yn 2017/8,  1,732 (93.3%) o bobl wynion wedi eu cyflogi yno, o'i gymharu gyda 91 (4.9%) o bobl o BAME, ac nad oedd unrhyw welliant yn 2018/19 a 2019/20 nid oedd fawr gwelliant gyda'r bobl wynion yn 85.9% a 89.5% tra bod y staff BAME yn 12.7 a 9.8 yn y ddwy flynedd.

Mewn cyfweliad cyflogaeth y bu i mi ei fynychu, roedd y panel yn gyfangwbl wyn, a gwelwn o'i hagweddau, bod fy nhynged wedi ei benderfynnu cyn i'r cyfweliad ddigwydd; ac ni synnais o dderbyn e-bost ychydig oriau yn ddiweddarach nad oedd y cyfweliad yn llwyddiannus o'm plaid. O'm profiad personol gyda'm ceisiadau am swydd, yn amlach na pheidio mae'r rhestru byr am gyfweliadau ac apwyntiadau yn dangos mantais o blaid y bobl wynion, oherwydd bod yna flaenoriaeth i bobl wyn.

Mae digon o dystiolaeth yn cadarnhau ers Adroddiad Macpherson, bod rheolau cyfundrefnol, diwylliannol ac arfer, yn rhwystro cyfartaledd rhag cael ei weithredu, yn arbennig gan grwpiau BAME. Mae llawer o blith grwpiau BAME wedi dioddef oherwydd rhagfarn cymdeithasol a sefydliadol.

Arwaham i'r anghyfiawnderau ac anghysondebau hyn a amlygwyd am bobl BAME yn y DU, mae llawer yn ofnus i siarad am y sefyllfaoedd yma, neu yn gwrthod derbyn y status quo. Gwedd drist yw tawelwch parhaus y mwyafrif, sydd drwy fod yn dawedog yn gwaethygu'r sefyllfa. Beth fydd llawer yn gwrthod ei dderbyn yw bod anghyfiawnder i unrhyw berson yn anghyfiawnder i bawb, a bod hyn yn effeithio fel pelen eira yn y gymdeithas ehangach.. Er bod anghyfiawnder amlwg yn y gymdeithas ehangach yn erbyn pobl BAME, bydd llawer yn ofnus o siarad am y pwnc, ac efallai ohd yn derbyn y status quo.

**Beth sydd gan hwn i'w wneud gyda mi?**
Mae angen i bobl ddysgu deall diwylliannau pobl eraill fel rhan o'i hymagweddu cadarnhaol tuag at yr amrywiaeth diwylliannol sy'n bodoli. Mae methu gwneud hyn yn arwain at ragfan anymwybodol lle bydd unigolion yn magu yn eu diwylliannau a ffordd o fyw eu hunain, agweddau sy'n trin eraill yn annynnol.

Nid oes wahaniaeth beth yw lliw croen unrhywun, mae'n rhaid i ni gofio ein bod oll yn fodau dynol, yn greadigaethau Duw ac yn gyfwerth a'n gilydd. Mae angen i ni fyw ynghyd mewn heddwch, yn parchu a cheisio deall ein amrywiol ddiwylliannau. Rhaid cofio na allwn gydfyw gyda'n gilydd yn heddychlon fel bodau dynol unrhyw le, heb fod yna gyfiawnder a chydraddoldeb. Felly, mae'n rhaid i ni gyd-frwydro yn erbyn anghyfiawnder a rhagfarnau gwahaniaethol oddi fewn i gymdeithas.




dimarik/istock



# HANES A GWYBODAETH PELLACH

# SUL CYFIAWNDER HILIOL – HANES

Cychwynwyd cynnal Sul Cyfiawnder Hiliol ym 1995, ac fe'i ddathlwyd am flynyddoedd lawer ar yr ail Sul ym mis Medi. Y sbardun am hyn oedd marwolaeth trasig yr hogyn ifanc Du, Stephen Lawrence, a hynny yn Eltham, De Llundain ar 22 Ebrill 1993. Roedd Stephen yn dychwelyd adref gyda ffrind pan ymosodwyd arno a'i ladd gan griw o lanciau Gwyn. Bu'r ymchwiliad a ddilynodd y llofruddiaeth hwn yn hynod ddiffygiol o safbwynt yr heddlu – ar un adeg bu'r heddlu hyd y oed yn ysbïo ar deulu Stephen Lawrence. Arweiniodd hyn yn y pendraw at gynnal Ymchwiliad Cyhoeddus o dan ofal yr Ysgrifennydd Cartref Llafur ar y pryd, Jack Straw.

Ymhen amser cyhoeddwyd Adroddiad Macpherson, a ddaeth i'r casgliad bod yr ymchwiliad i farwolaeth Stephen wedi cael ei "gawlio gan gyfuniad o anwybodaeth proffesiynol, hiliaeth sefydliadol a methiant arweinyddyddol". Cafodd swyddogion penodol o fewn corff yr Heddlu Metropolitanaidd eu henwi a beirniadwyd y corff cyfan am eu methiannau dirfawr.

Roedd y teulu Lawrence yn Gristnogion ac yn mynychu Eglwys y Methodistiaid yn Plumstead, De-ddwyrain Llundain. Y cysylltiad hwn fu'n sbardun i annog yr Eglwys Fethodistaidd i gymryd diddordeb yn yr achos hwn. Cyn hynny, roedd tîm cyfiawnder hiliol yr Eglwys Fethodistaidd wedi annog yr enwad i ymddiddori mewn materion hiliaeth o fewn yr Eglwys a chymdeithas, ond achos Lawrence a ddangosodd yn glir nad oedd hiliaeth yn rym y gellid ei oddef.

Roedd llofruddiaeth Stephen Lawrence yn un o nifer o laddiadau hiliol o Ddu a Pobl ifanc Asiaidd bryd hynny, fel Ricky Reel, Roland Adams, Quddus Ali ac eraill.

Yr hyn a nodweddai yr holl achosion hyn (ar y pryd) oedd na chafwyd neb yn euog o'r lladdiadau hyn.

Ar wahân i'r lladdiadau hyn, roedd Prydain y pryd hwnnw'n cynnwys cymunedau oedd yn llawn tensiynau hiliol, a arweiniodd at frwydr gynyddol gan lawer o ymgyrchwyr pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i gael cyfiawnder a chydraddoldeb yn y system cyfiawnder troseddol, cyflogaeth, addysg, iechyd (meddwl) a meysydd eraill sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus.

Roedd mathau eraill o waith ym maes cyfiawnder hiliol wedi bod yn cymryd lle hefyd, nad oedd yn gysylltiedig â'r eglwys Fethodistaidd, a hynny ymhell cyn lladdiad trasig Stephen Lawrence. Er enghraifft, cymerodd Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI) ddiddordeb brwd mewn ceisio cyfiawnder hiliol ers sawl degawd, gan gyhoeddi sawl papur trafod i'r eglwysi.

Yn 2017, cytunwyd y dylid symud Sul Cyfiawnder Hiliol o fis Medi i fis Chwefror. Roedd y flwyddyn 2020 yn nodi 25 mlynedd ers sefydlu Sul Cyfiawnder Hiliol ym Mhrydain ac Iwerddon, ac roedd cynlluniau ar y gweill i ddathlu'r pen-blwydd arwyddocaol hwn.

Fodd bynnag, yn debyg i lawer o digwyddiadau a gweithgareddau eraill, ymyrrodd COVID-19, gan chwalu'r holl gynlluniau.

Yna ynghanol y pandemig, llofruddiwyd George Floyd, dyn Americanaidd Affricanaidd gan heddwas yn Minneapolis, UDA ym mis Mai 2020: cafodd y llofruddiaeth hyn eto effaith mawr ar y frwydr i sicrhau cyfiawnder hiliol ledled y byd, gan roi'r mater nôl unwaith eto yn ganolog ar agenda eglwysi a chymdeithas ar draws y byd. Ym Mhrydain ac Iwerddon, arweiniodd hyn at nifer o enwadau eglwysig, grwpiau para eglwys a sefydliadau Cristnogol i gyhoeddi datganiadau yn condemnio hiliaeth ac yn gwneud ymrwymiadau i herio hiliaeth o fewn eu strwythurau i weithio er dileu anghyfiawnderau ar sail hil.



# LLYFRAU AC ADNODDAU AR GYFER DARLLEN PELLACH

## LLYFRAU

Akala. Natives: race and class in the ruins of empire. Two Roads. 2018.
All one in Christ? Edited by Patrick Sookhdeo. Marshall, Morgan and Scott. 1974.
Andrews, Kehinde. Back to Black: Black radicalism for the 21st century. Zed. 2019.
Appiah, Kwame Anthony. The lies that bind: rethinking identity. Profile. 2019.
Beckford, Robert. Jesus is dread: Black theology and Black culture in Britain. DLT. 1998.
Beckford, Robert. Dread and Pentecostal: a political theology for the Black church in Britain. SPCK. 2000.
Coleman, Kate. Accepting Ethnic Diversity and Difference, a video from Missio Nexus, 2020.
Diangelo, Robin. White fragility: why it's so hard for White people to talk about racism. Penguin. 2018.
Eddo-Lodge, Reni. Why I am not talking to White People about Race, London, Bloomsbury Publishing, 2018.
Fryer, Peter. Staying power: the history of Black people in Britain. Pluto. 1987.
From lament to action: a report of the Archbishops' anti-racism task force. The Church of England. 2021.
Gordon-Carter, Glynne. An Amazing Journey: The Church of England's response to institutional racism. Church House Publishing. 2003.
Haslam, David. Race for the Millennium: a challenge to church and society. Church House Publishing. 1996.
Hirsch, Afua. Brit(ish): on race, identity and belonging. Vintage. 2018.
Intercultural preaching. Edited by Anthony G. Reddie et al. Regent's Park College. 2020.
Jennings, Willie James. After whiteness: an education in belonging. William B. Eerdmans. 2020.
Let's praise him again: an African-Caribbean perspective on worship. Edited by Joel Edwards. Kingsway. 1992.
Lindsay, Ben. We need to Talk About Race: Understanding the Black Experience in White Majority Churches. SPCK. 2019.
McDonald, Chine. God is not a White Man and other Revelations, Hodder and Stoughton, 2021.
Macaulley, Esau. Reading while Black, African American Biblical Interpretation as an Exercise in Hope, IVP Academic, 2020.
Olofinjana, Israel Oluwole. Discipleship, Suffering and Racial Justice. Regnum Books. 2021.
The Methodist Church, Equalities, Diversity and Inclusion.

## ADNODDAU

Myrie, Clive. Is the Church Racist? BBC Panorama documentary. 2021.
Olusoga, David. Black and British: a forgotten history. Picador. 2021.
Parekh, Bhikhu. The Future of Multi-ethnic Britain, commissioned by the

Runnymede Trust, Profile Books. 2000.
Pitts, Johny. Afropean: notes from Black Europe. Penguin. 2019.
Racial Justice Champions: Vol 1. Edited by Richard Reddie. Churches Together in Britain and Ireland. 2021.
Rattansi, Ali. Racism: a very short introduction. Oxford. 2007.
Reddie, Anthony. Is God Colour-Blind? Insights from Black Theology for Christian Faith and Ministry. New Edition with an afterword on why Black Lives Matter. SPCK. 2020.
Reddie, Anthony. Theologising Brexit A Liberationist and Postcolonial Critique. Routledge. 2019.
Spencer, Linbert. Building a multi-ethnic church. SPCK. 2007.
Sturge, Mark. Look what the Lord has done!: an exploration of Black Christian faith in Britain. Scripture Union. 2005.
Vernon, Patrick and Osborne, Angelina. 100 great Black Britons. Robinson. 2020.
Walker, Robin et al. Black British History: Black Influences on British culture (1948 to 2016). CreateSpace Independent Publishing. 2017.
Winder, Robert. Bloody Foreigners:
The Story of Immigration to Britain, Abacus, 2013.

## CYFRANWYR

Mae'r adnodd hwn yn gynnyrch cydweithrediad a phartneriaeth eciwmenaidd rhwng enwadau a mudiadau Cristnogol o Gymru, yr Alban, Iwerddon a Lloegr – y pedair gwlad. Yn gynnar yn 2020, cyn cyfnod Clo COVID-19, cyfarfu enwadau o bob rhan o'r pedair gwlad i drafod y posibilrwydd o greu adnodd ar y cyd a thema cyfiawnder hiliol ar gyfer Sul Cyfiawnder Hiliol 2022. Yn y gorffennol bu llawer o sefydliadau unigol yn cynhyrchu eu hadnoddau eu hunain ar gyfer y Sul Cyfiawnder Hiliol, ond teimlwyd bod cael un adnodd gyda thema arbennig yn galluogi'r eglwysi i gydweithio er mwyn paratoi yr adnodd grau posib. Mae'r adnodd hwn yn ffrwyth y cydweithio hwnnw, a diolchwn i'r canlynol am eu cyfraniadau gwerthfawr:

Revd Wale Hudson Roberts, Justice Enabler and Baptist Minister, The Baptist Union of Great Britain
Major Jonny Smith, Intercultural Mission Enabler, The Salvation Army
Shermara JJ Fletcher, Principal Officer for Pentecostal, Charismatic and Multicultural Relations, CTE
Revd Dr Israel Oluwole Olofinjana, Director of One People Commission, Evangelical Alliance
Revd Mandy Ralph, Minister, Church of Scotland
Father Philip Thomas Sumner, Trustee of the Catholic Association for Racial Justice
Edwina Peart, Inclusion and Diversity Coordinator, Quakers in Britain
Phill Mellstrom, Worship Development Worker, Church of Scotland
Dr Sanjee Perera, Archbishops' Adviser on Minority Ethnic Anglican Concerns, Church of England
Prof. Anthony Reddie, Director: Oxford Centre for Religion and Culture, Regent's Park College, Oxford
Dr Damian Jackson, Programme Officer, Irish Council of Churches
Dr Frankie Asare-Donkoh, Consultant: Politics & Governance Leadership and Strategic Management, Wales
Pastor Oluwadamilare (Daré) Adetuberu, Lead Pastor at Redeemed Christian Church of God Kingdom
Dion-Marie White, Youth Worker, Hebe Foundation
Gabriel Dedji, Student, University College of London
Bevan Powell, Equality, Diversity and Inclusion Advisor, Methodist Church
Mark Sturge, PhD Student, Durham University
Jennifer Laurent-Smart – Equality and Diversity Manager, The Salvation Army
Karen Campbell, Secretary for Global & Intercultural Ministries, The United Reformed Church

SUL CYFIAWNDER HILIOL 2022

# CYFIAWNDER HILIOL:

## BE SY A WNELO HYNNY Â FI?

Mae CTBI wedi ymrwymo i greu a datblygu cysylltiadau gyda eglwysi Cristnogol eraill ledled Prydain ac Iwerddon, gan gryfhau cysylltiadau â'i gilydd, yn ogystal â dyfnhau dealltwriaeth o wahanol enwadau a'u hamrywiaeth neu hunaniaeth. Mae'n darparu gwybodaeth ac arweiniad i bontio dealltwriaeth o faterion yn y gymdeithas heddiw ac yn datblygu cyhoeddiadau ac adnoddau rhad ac am ddim gyda sefydliadau ac aelodau eraill i gynnig deunyddiau myfyrio, gweddïo ac astudio i ddathlu a chofnodi digwyddiadau Cristnogol allweddol.

Fel asiantaeth yr eglwysi trwy'r pedair gwlad, mae CTBI yn ymdrechu i sicrhau bod eglwysi'n cydweithio'n fwy, gan wneud llai ar wahân.

Mae'r adnodd hwn yn alwad i bob Cristion gymryd rhan yn y frwydr bwysig dros gyfiawnder hiliol oherwydd bod cyfiawnder hiliol yn fusnes i bawb.




bojanstory/funky-data/istock

gyda chefnogaeth

Premier. Christian Radio

churches together IN BRITAIN AND IRELAND©